
# Cronfa Bensiynau Clwyd

# Datganiad o Bolisïau Disgresiwn yr Awdurdod Gweinyddu

Mehefin 2024



# Tudalen Cynnwys

Cyflwyniad ... 3

Cymeradwyo, Adolygu ac Ymgynghori ... 3

Rhagor o Wybodaeth ... 4

Allwedd i Gyfeiriadau at Reoliadau ... 4

Disgresiynau Awdurdod Gweinyddu dan Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ... 5

Rheoliadau Disgresiynau dan Lywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal yn ôl Disgresiwn) (Cymru a Lloegr) 2000 (fel y'i diwygiwyd) ... 33

Polisïau Eraill yn Ymwneud â Gweinyddu ... 34



Cronfa Bensiynau CLWYD Pension Fund

# Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir y Fflint, fel awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd, wedi pennu eu polisïau disgresiwn yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013, fel y'i diwygiwyd, a'r ddeddfwriaeth berthnasol, a'r rhain yr amlinellir yn y datganiad hwn. Mae'r polisïau hyn yn gymwys i bob aelod presennol y Gronfa Bensiynau, pwy bynnag yw eu cyflogwr. Pan fo'n berthnasol, mae'r polisïau hyn yn gymwys i aelodau sydd wedi gadael gwasanaeth pensiynadwy cyn mis Ebrill 2014 (er mewn perthynas â disgresiwn a ymarferwyd ers y dyddiad y daeth y polisïau i rym), aelodau'r cyngor ac aelodau credyd pensiwn.

Mae polisïau disgresiwn y Gronfa wedi cael eu hadolygu'n unol â'r newidiadau mewn deddfwriaeth ers 1 Ebrill 2014 ac mae'r polisïau hyn wedi cael eu huno i'r datganiad hwn. Er bod y datganiad hwn o bolisïau wedi cael eu diweddaru a'u cymeradwyo ddiwethaf ym mis Tachwedd 2023 ac felly mae'r polisïau a nodwyd yn gymwys o'r pwynt hwnnw ymlaen, roedd sawl polisi eisoes mewn lle ac ar waith cyn y dyddiad hwnnw.

Nid yw'r polisïau hyn yn rhoi, nac yn gymwys i roi, unrhyw hawl dan gontract i unrhyw aelod o'r Gronfa Bensiynau, neu i unrhyw unigolyn o gwbl. Ni fydd unrhyw beth yn y ddogfen hon yn achosi i gapasiti Cyngor Sir y Fflint, fel awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd, i weithredu ei bwerau disgresiwn i fod yn rhwym yn anghyfreithiol neu ei gyfyngu mewn unrhyw fodd. Pan mae polisi'n nodi ei fod yn amodol i gymeradwyaeth swyddog, ac nid yw'r swyddog hwnnw ar gael, yna gellir dirprwyo swyddog arall o safle cyfwerth neu uwch o fewn Tîm Rheoli Cronfa Bensiynau Clwyd neu gan y Rheolwr Cyllid Corfforaethol, y Rheolwr Corfforaethol - Pobl a Datblygu Sefydliadol neu'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd. Gall disgresiwn sy'n cael ei ddirprwyo i'r Rheolwr Gweinyddu Pensiynau, gael ei bennu yn eu habsenoldeb os oes cymeradwyaeth gan ddau Ben Swyddog Pensiynau er nad ydynt o safle cyfwerth neu uwch.

Bydd y disgresiwn yn cael ei weithredu'n unol â darparu amryw Reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a deddfwriaethau eraill. Nid ellir trosysgrifo gofynion cyfreithiol o fewn y darpariaethau hynny gydag unrhyw beth yn y datganiad hwn.

# Cymeradwyo, Adolygu ac Ymgynghori

Cafodd y polisïau hyn eu cymeradwyo, fel y caniatawyd gan swyddogaethau dirprwyedig, gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd ac un ai'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol neu'r Rheolwr Corfforaethol - Pobl a Datblygiad Sefydliadol, ar ôl ystyried cyngor gan aelodau Panel Ymgynghorol Cronfa Bensiynau Clwyd ym mis Tachwedd 2023. Cymeradwywyd nifer fechan o newidiadau pellach i'r polisi gan Bwyllgor y Gronfa Bensiynau yn eu cyfarfod ar 19 Mehefin 2024. Bydd y polisïau o fewn y datganiad hwn yn cael eu hadolygu yn ôl yr angen yng ngoleuni newidiadau yn y

dyfodol i ddeddfwriaeth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu ddeddfwriaeth berthnasol eraill. Bydd y datganiad hwn hefyd yn cael ei adolygu bob tair blynedd o leiaf, er y gall y polisïau gael eu diwygio ar unrhyw adeg.

## Rhagor o Wybodaeth

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am unrhyw beth yn y Datganiad Polisïau Disgresiwn hwn neu'n gysylltiedig Datganiad hwn, cysylltwch â:

Phillip Latham, Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, Cyngor Sir y Fflint

E-bost: **Philip.latham@siryfflint.gov.uk**

Rhif ffôn: 01792 002129

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth gan gynnwys polisïau unigol y cyfeirir atynt yn y datganiad hwn ar wefan Cronfa Bensiynau Clwyd ar: **https://cronfabensiynauclwyd.org.uk**

## Allwedd i Gyfeiriadau at Reoliadau

- R13: Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013
- TP14: Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Cynilion a Diwygio) 2014
- A: Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2008
- B: Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007
- T08: Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol) 2008
- R97: Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997
- TP97: Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol) 1997
- R95: Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1995

*Sylwch fod cyfeiriadau at hen ddarpariaethau (e.e. R97) yn gymwys yn gyffredinol mewn perthynas ag aelodau'r cynllun sydd wedi gadael dan y darpariaethau hynny.

# Disgresiynau Awdurdod Gweinyddu dan Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o'r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| **Polisïau a Strategaethau Allweddol** | | | |
| **1** | **R13 - 55** | Cyhoeddi Polisi Llywodraethu sy'n nodi sut mae swyddogaethau yn cael eu dirprwyo ac a yw'r Awdurdod Gweinyddu'n cydymffurfio gyda'r canllaw a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. | Gellir dod o hyd i gopi o'r Polisi Llywodraethu Presennol ar wefan y Gronfa Bensiynau. |
| **2** | **R13 - 105(2)** | Penderfynu dirprwyo unrhyw swyddogaethau awdurdod gweinyddu dan y Rheoliadau ai peidio. | Mae gan Gyngor Sir y Fflint swyddogaethau dirprwyedig i Bwyllgor y Gronfa Bensiynau, Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, y Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'r Rheolwr Corfforaethol - Pobl a Datblygiad Sefydliadol. Mae hefyd wedi darparu pwerau i'r Pwyllgor Cronfa Bensiynau i ddirprwyo nifer fechan o swyddogaethau pellach i un neu fwy o swyddogion y Cyngor. Gellir dod o hyd i wybodaeth ar ddirprwyon Cyngor Sir y Fflint yng Nghyfansoddiad y Cyngor, yn ogystal â chael eu crynhoi ym Mholisi Llywodraethu'r Nawdd (gweler disgresiwn rhif 1). Gellir darparu gwybodaeth ar y dirprwyaethau swyddogion diweddaraf ar gais i Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd. |

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o'r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| 3 | **R13 - 58** | Penderfynu ar y Strategaeth Nawdd ar gyfer ei gynnwys yn natganiad y strategaeth nawdd. | Cytunwyd mewn cydweithrediad gydag actiwari.  Gellir dod o hyd i gopi o'r Strategaeth Gyllido bresennol ar wefan y Gronfa Bensiynau. |
| 4 | **R13 - 61** | Datblygu Polisi Cyfathrebu sy'n nodi sut mae'r Awdurdod Gweinyddu'n cyfathrebu ag aelodau, cynrychiolwyr aelodau, darpar aelodau ac awdurdodau cyflogi, yn ogystal â'r fformat, amlder a dull cyfathrebu. | Gellir dod o hyd i gopi o'r Strategaeth Gyfathrebu bresennol ar wefan y Gronfa Bensiynau. |
| 5 | **R13 – 59(1) a (2)** | Penderfynu cael Strategaeth Gweinyddu Pensiynau ysgrifenedig, ac os felly, y materion y dylai gynnwys. | Gellir dod o hyd i gopi o'r Strategaeth Weinyddu bresennol ar wefan y Gronfa Bensiynau. |
| **Bwrdd Pensiwn** | | | |
| 6 | **R13 - 106(3)** | Penderfynu sefydlu bwrdd pensiynau lleol ar y cyd (os rhoddir cymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol) ai peidio. | Mae Cyngor Sir y Fflint wedi penderfynu peidio sefydlu bwrdd pensiynau lleol ar y cyd, ond yn hytrach, sefydlu bwrdd pensiwn unigol at bwrpas Cronfa Pensiynau Clwyd yn unig. |

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o’r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| 7 | R13 - 106(6) | Pennu gweithdrefnau sy'n gymwys i'r bwrdd pensiynau lleol. | Mae Cyngor Sir y Fflint wedi cymeradwyo Gweithdrefnau Bwrdd Pensiwn sy’n amlinellu’r gweithdrefnau sy’n gymwys i’r Bwrdd Pensiwn. Mabwysiadwyd hyn ymhellach gan y Bwrdd Pensiwn. Mae’r Protocol wedi’i gynnwys o fewn Cyfansoddiad y Cyngor, ac ar gael ar wefan y Gronfa Bensiynau. |
| 8 | R13 - 107(1) | Pennu gweithdrefnau penodi, telerau penodi ac aelodaeth o fwrdd pensiwn lleol. | Mae’r wybodaeth hon wedi’i chynnwys yng Ngweithdrefn y Bwrdd Pensiwn (gweler disgresiwn rhif 7). |
| **Anghydfodau** | | | |
| 9 | R13 – 74(1)<br>A58<br>R97 - 100 | Penodi person i fynd i’r afael â cheisiadau dan Gam Un y gweithdrefnau datrysiad i anghydfod (IDRP) mewn perthynas ag unrhyw anghydfodau yn ymwneud â’r rôl fel Awdurdod Gweinyddu (gan gynnwys mewn perthynas ag aelodau sy’n gynghorwyr). | Mae Rheolwr Datblygu Busnes Cronfa Bensiynau Gorllewin Swydd Efrog yn gweithredu fel asesydd Cam Un yr IDRP ar gyfer anghydfodau’r Awdurdod Gweinyddu. Mae hyn yn cynnwys anghydfodau gan holl aelodau o’r Gronfa waeth pwy yw eu cyflogwr ar gytundeb gyda’r cyflogwyr. |

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o'r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| **10** | **R13 – 76(4)**<br>**A60(8)**<br>**R97 - 99** | Pennu'r weithdrefn i'w dilyn gan yr Awdurdod Gweinyddu wrth ymarfer swyddogaethau Cam Dau'r IDRP a'r dull y gweithredir y swyddogaethau hynny (gan gynnwys mewn perthynas ag aelodau sy'n gynghorwyr). | Mae penderfyniadau Cam 2 yn cael eu trin gan Swyddog Monitro Cyngor Sir y Fflint, ar ôl derbyn y cyngor a'r cyfarwyddyd perthnasol. Gall y Swyddog Monitro ddewis dirprwyo'r cyfrifoldeb hwn i weithiwr CSFf arall. Mae'r broses yn cael ei amlinellu yn nhaflen wybodaeth y Gronfa yn ymwneud â'r IRDP sydd ar gael ar wefan y Gronfa Bensiynau neu ar gais. Mae hyn yn cynnwys anghydfodau gan holl aelodau o'r Gronfa waeth pwy yw eu cyflogwr. |
| **11** | **R13 – 79(2)**<br>**A63(2)**<br>**R97 – 105(1)** | Pe byddai Awdurdod Gweinyddu'n apelio i'r Ysgrifennydd Gwladol yn erbyn penderfyniad cyflogwr (neu ddiffyg penderfyniad) - gan gynnwys mewn perthynas ag aelodau sy'n gynghorwyr. | Bydd y Gronfa'n apelio i'r Ysgrifennydd Gwladol pan mae diffyg tystiolaeth bod cyflogwr wedi gwneud penderfyniad neu ymrwymo i weithred (neu wedi methu gweithredu) sy'n yn groes i'r gyfraith a'r deunydd, pan nad ydym wedi gallu darbwyllo'r cyflogwr i newid ei weithredoedd (neu ddiffyg gweithredoedd). Caiff y fath faterion eu pennu gan Bwyllgor y Gronfa Bensiynau. |
| **Cytundebau Derbyn a Rheoli Cyflogwyr** | | | |
| **12** | **R13 - 3(1A)**<br>**R13 - 3(5)**<br>**Sch2, Rhan 3, Para 1** | I gytuno ar gytundeb derbyn gyda chyflogwr allanol sy'n ymgeisio i fod yn gorff derbyniedig. | Yn unol â dirprwyaeth swyddogaethau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, caiff hyn ei bennu gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd ac un ai'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol neu'r Rheolwr Corfforaethol - Pobl a Datblygiad Sefydliadol, ar ôl cael cyngor priodol gan Actiwari'r Gronfa a'r ymgynghorydd cyfreithiol (pan fo'r angen). |

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o'r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| 13 | **R13 - Sch2, Rhan 3, Para 14** | I ôl-ddyddio dyddiad dod i rym cytundeb derbyn ai peidio, gyda chyflogwr allanol. | Yn unol â dirprwyaeth swyddogaethau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, caiff hyn ei bennu gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd ac un ai'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol neu'r Rheolwr Corfforaethol - Pobl a Datblygiad Sefydliadol, ar ôl cael cyngor priodol gan Actiwari'r Gronfa a'r ymgynghorydd cyfreithiol (pan fo'r angen). |
| 14 | **R13 – 4(2)(b)** | I gymeradwyo cytundeb derbyn gydag Ymddiriedolaeth Gofal ai peidio, awdurdod cyflogi Cynllun GIG neu'r Comisiwn Ansawdd Gofal. | Yn unol â dirprwyaeth swyddogaethau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, caiff hyn ei bennu gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd ac un ai'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol neu'r Rheolwr Corfforaethol - Pobl a Datblygiad Sefydliadol, ar ôl cael cyngor priodol gan Actiwari'r Gronfa a'r ymgynghorydd cyfreithiol (pan fo'r angen). |
| 15 | **R13 - Sch2, Rhan 3, Para 9(d)** | I derfynu cytundeb derbyn trosglwyddai ai peidio, mewn digwyddiad o:<br>• ansolfedd, dirwyn y corff i ben neu ddiddymu<br>• toriad rhwymedigaethau gan y corff hwnnw dan y cytundeb derbyn<br>• methiant gan y corff hwnnw i dalu symiau sy'n daladwy i'r Gronfa o fewn cyfnod rhesymol o gael cais i wneud hynny. | Yn unol â dirprwyaeth swyddogaethau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, caiff hyn ei bennu gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd ac un ai'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol neu'r Rheolwr Corfforaethol - Pobl a Datblygiad Sefydliadol, ar ôl cael cyngor priodol gan Actiwari'r Gronfa gydag ystyriaeth i gyfamod y cyflogwr dan sylw. |

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o'r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| **16** | **R13 - Sch2, Rhan 3, Para 12(a)** | Mae gan gyflogeion contractwyr hawl i barhau yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol os ydynt yn parhau i gael eu cyflogi "mewn cysylltiad â'r gwasanaethau gwreiddiol a drosglwyddwyd, yn unig". Dylai'r Awdurdod Gweinyddu ddiffinio'r mynegiad hwn (fel y dangosir mewn italig). | Ac eithrio bod cytundeb arall gyda'r cyflogwr a drefnir gan gontract allanol, mae hyn yn cael ei ddiffinio i olygu y bydd disgwyl i weithiwr weithio o leiaf 50% o'u hamser gyda'r gwasanaethau sy'n cael eu nodi gan y contract i aros yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. |
| **17** | **R13 – 54(1)** | I sefydlu cronfa cytundeb derbyn ar wahân ai peidio. | Yn gyffredinol, ni fydd cronfa cytundeb derbyn ar wahân yn cael ei sefydlu. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y byddai Pwyllgor y Gronfa Bensiynau yn ystyried hyn o wybod cyngor Actiwari'r Gronfa. |
| **18** | **R13 - 64(2A)** | I atal, am hyd at dair blynedd, rhwymedigaeth gweithiwr i dalu taliad gadael pan mae'r cyflogwr yn debygol o gael aelodau cyfredol o fewn y cyfnod atal hwnnw ai peidio. | Yn unol â dirprwyaeth swyddogaethau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, caiff hyn ei bennu gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd ac un ai'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol neu'r Rheolwr Corfforaethol - Pobl a Datblygiad Sefydliadol, ar ôl cael cyngor priodol gan Actiwari'r Gronfa. |

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o'r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| **19** | **R13 - 64(2ZA)** | Penderfynu cytuno talu credyd ymadael i gyflogwr sy'n gadael mwy na chwe mis ar ôl diwrnod ymadael y cyflogwr (neu chwe mis ar ôl cwblhau asesiad rhoi'r gorau gan yr Actiwari (os yw'n hwyrach). Byddai hyn yn estyniad i'r amserlen arferol a byddai ond yn cael ei ganiatáu os yw cytundeb yn cael ei dderbyn gan y cyflogwr gadael hefyd. | Yn unol â dirprwyaeth swyddogaethau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, caiff hyn ei bennu gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd ac un ai'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol neu'r Rheolwr Corfforaethol - Pobl a Datblygiad Sefydliadol, ar ôl cael cyngor priodol gan Actiwari'r Gronfa ac mewn ymgynghoriad â'r cyflogwr presennol. |
| **20** | **R13 - 64(2ZC)** | Pennu cyfanswm unrhyw gredyd ymadael sy'n daladwy i gyflogwr sy'n gadael gan ystyried y ffactorau a restrir yn y Rheoliadau. | Yn unol â dirprwyaeth swyddogaethau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, caiff hyn ei bennu gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd ac un ai'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol neu'r Rheolwr Corfforaethol - Pobl a Datblygiad Sefydliadol yn unol â pholisi'r Gronfa fel y nodir yn y Datganiad Strategaeth Gyllido, gan gynnwys ystyried sylwadau gan y cyflogwr sy'n gadael a chyflogwr y cynllun lle bo'n berthnasol, ar ôl cymryd y cyngor priodol gan Actiwari'r Gronfa. |
| **21** | **R13 - 64(4)** | I gynnal adolygiad o'r cyfraddau a'r dystysgrif addasiadau petai amgylchiadau sy'n ei gwneud yn debygol y bydd Cyflogwr Cynllun yn dod i ben, ai peidio. | Yn unol â dirprwyaeth swyddogaethau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, caiff hyn ei bennu gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd ac un ai'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol neu'r Rheolwr Corfforaethol - Pobl a Datblygiad Sefydliadol, ar ôl cael cyngor priodol gan Actiwari'r Gronfa. |

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o’r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| **22** | **R13 - 64(7A)** | P’un ai i fynd i gytundeb gohirio dyled gyda chyflogwr Cynllun sy’n gadael er mwyn gohirio eu hymrwymiad i wneud taliad ymadael a pharhau i gyfrannu tuag at y Gronfa. | Yn unol â dirprwyaeth swyddogaethau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, caiff hyn ei bennu gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd ac un ai’r Rheolwr Cyllid Corfforaethol neu’r Rheolwr Corfforaethol - Pobl a Datblygiad Sefydliadol yn unol â pholisi’r Gronfa fel y nodir yn y Datganiad Strategaeth Gyllido ac ar ôl cymryd y cyngor priodol gan Actiwari’r Gronfa. |
| **23** | **R13 - 64A(1)** | I gynnal adolygiad o'r cyfraddau a'r dystysgrif addasiadau yn dangos unrhyw newidiadau i gyfraniadau cyflogwr neu gyflogwyr y cynllun. | Yn unol â dirprwyaeth swyddogaethau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, caiff hyn ei bennu gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd ac un ai’r Rheolwr Cyllid Corfforaethol neu’r Rheolwr Corfforaethol - Pobl a Datblygiad Sefydliadol yn unol â pholisi’r Gronfa fel y nodir yn y Datganiad Strategaeth Gyllido ac ar ôl cymryd y cyngor priodol gan Actiwari’r Gronfa. |
| **24** | **R13 - 64B** | I gynnal adolygiad o'r cyfraddau a'r dystysgrif addasiadau yn dangos y gyfran o daliad ymadael i’w dalu gan y cyflogwr sy’n gadael y cynllun ymhob blwyddyn ar ôl y dyddiad gadael (trefniant lledaenu dyled). | Yn unol â dirprwyaeth swyddogaethau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, caiff hyn ei bennu gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd ac un ai’r Rheolwr Cyllid Corfforaethol neu’r Rheolwr Corfforaethol - Pobl a Datblygiad Sefydliadol yn unol â pholisi’r Gronfa fel y nodir yn y Datganiad Strategaeth Gyllido ac ar ôl cymryd y cyngor priodol gan Actiwari’r Gronfa. |

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o'r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| 25 | R13 – 68(2)<br>TP14 – Sch 2, Para 2(3)<br>R97 – 80(5) | I ofyn bod unrhyw straen ar nawdd yn cael ei dalu "ymlaen llaw" gan gyflogwr yn dilyn diswyddiad / effeithlonrwydd busnes, ymddeoliad hyblyg, neu hawlildiad (yn gyfan neu'n rhannol) o unrhyw ostyngiad actiwaraidd ar ymddeoliad hyblyg neu wirfoddol. | Pan mae costau'n codi o benderfyniad cyflogwr i ganiatáu ymddeoliad cynnar, bydd y costau hyn yn cael eu bodloni gan adlenwad mewnol neu dderbynneb, fel sy'n briodol. Bydd gofyn i'r cyngor a chyflogwyr allanol fodloni unrhyw straen ar gostau drwy dalu cyfandaliad a fydd yn daladwy pan fydd aelod y cynllun yn ymddeol yn gynnar.<br><br>Bydd yr un gofyniad yn gymwys pan mae gostyngiad ymddeoliad cynnar yn cael ei hepgor dan amgylchiadau eraill. |
| 26 | R13 – 80(1)(b)<br>TP14 - 22(1)<br>A64(1)(b) | Pa wybodaeth dylai cyflogwyr ddarparu i alluogi i awdurdod gweinyddu ryddhau ei swyddogaethau. | Bydd y Rheolwr Gweinyddu pensiynau yn pennu fformat ac amlder y wybodaeth yn unol â Strategaeth Gweinyddu Pensiynau'r Gronfa. |
| 27 | R13 – 69(1) | Penderfynu amlder taliadau cyfrannu i'r Gronfa gan gyflogwyr ac i godi ffi weinyddol am dderbyniad hwyr, ai peidio. | Yn arferol, dylid talu cyfraniadau yn fisol (yn gyffredinol, ac eithrio'r rheiny dan ddisgresiwn 22 ac uwch ac unrhyw gyfraniadau diffyg rhagdaledig). Dylid darparu'r wybodaeth yn ymwneud â'r cyfraniadau misol hynny yn fisol. Dylid talu'r cyfraniadau o fewn 19 diwrnod o ddiwedd y mis y cawsant eu tynnu, fan bellaf. Darperir rhagor o wybodaeth o fewn Strategaeth Weinyddol y Gronfa. |
| 28 | R13 – 69(4) | Pennu fformat ac amlder y wybodaeth gan gyflogwyr i gyd-fynd â thaliadau cyfraniadau i'r Gronfa. | Bydd Cyfrifydd y Gronfa Bensiynau a/neu'r Rheolwr Gweinyddu Pensiynau yn pennu fformat ac amlder y wybodaeth. Darperir rhagor o wybodaeth o fewn Strategaeth Weinyddol y Gronfa. |

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o’r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| **29** | **R13 - 70**<br>**TP14 - 22(2)** | Dosbarthu rhybudd i gyflogwr i adfer y costau ychwanegol a ysgwyddir o ganlyniad i lefel perfformiad y cyflogwr, ai peidio. | Mae hyn yn destun y broses a amlinellir yn y Strategaeth Gweinyddu Pensiynau a bydd y penderfyniad terfynol a yw costau ychwanegol yn cael eu had-dalu (gan gynnwys y swm i’w ad-dalu a sut gaiff hyn ei gyfrifo) yn cael ei wneud ar y cyd à’r Rheolwr Gweinyddu Pensiynau a Phennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd. |
| **30** | **R13 – 71(1)** | Codi llog ar daliadau gan gyflogwyr sy’n talu’n hwyr ai peidio. | Yn ddiofyn bydd llog yn cael ei godi mewn perthynas â thaliadau hwyr a dderbynnir gan awdurdodau cyflogi, lle mae taliad yn hwyr (gyda’r dyddiad hwyr wedi’i nodi yn y rheoliadau perthnasol). Bydd llog yn cael ei gyfrifo yn unol â’r rheoliadau perthnasol. Fodd bynnag, gall Gyfrifydd y Gronfa Bensiynau ddewis hepgor y taliad, yn dilyn trafodaeth gyda’r Rheolwr Gweinyddu Pensiynau a Phennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd. Bydd hepgor y swm fel arfer ond yn cael ei ystyried os ystyrir bod y llog yn de minimis. |

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o’r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| **31** | **R13 - 36(3)**<br>**A56(2)**<br>**R97 – 97(10)** | Mae gofyn i’r Awdurdod Gweinyddu gymeradwyo’r cynghorwyr meddygol a ddefnyddiwyd gan gyflogwyr (ar gyfer pennu buddion salwch) – gan gynnwys mewn perthynas ag aelodau sy’n gynghorwyr. | Cytunir ar restr o ymarferwyr awdurdodedig gyda Chyngor Gwynedd ar gyfer eu defnyddio gan Gronfeydd Pensiwn Clwyd a Gwynedd. Bydd y Rheolwr Gweinyddu Pensiynau yn pennu a oes modd i gyflogwr ddefnyddio Darparwr Iechyd Galwedigaethol arall i’r rheiny ar y rhestr gymeradwy. Os fydd yr ymarferydd ychwanegol yn cael ei gymeradwyo, cant eu hychwanegu i’r rhestr a gedwir gan yr Awdurdod Gweinyddu. |
| **Taliadau yn ymwneud â Marwolaeth** | | | |
| **32** | **R13 – 82(2)**<br>**A52(2)**<br>**R97 - 95** | Gellir talu grant marwolaeth, oherwydd ystâd aelod o’r cynllun, i gynrychiolwyr personol, neu unrhyw un sy’n ymddangos i fod, heb yr angen am grant profiant / lythyrau gweinyddol os yw’r grant marwolaeth yn llai na’r swm y nodwyd yn unrhyw orchymyn dan Adran 6 Deddf Gweinyddiaeth yr Ystadau (Taliadau Bach) 1965 (£5,000 ar adeg llunio'r polisi hwn). Mae hyn hefyd yn berthnasol i aelodau sy’n gynghorwyr. | Yn gyffredinol, bydd y Gronfa yn talu’r grant marwolaeth heb lunio grant profiant / llythyrau gweinyddol mewn math achosion yn amodol ar ddatganiad indemniad gan y derbynnydd. |

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o'r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| 33 | **R13 – 17(12), 40(2), 43(2) & 46(2)**<br>**TP14 – 17(5) hyd at (8)**<br>**B23(2), 32(2) a 35(2)**<br>**T08Sch1**<br>**R97 - 38(1) a 155(4)**<br>**R95 - E8** | Gall Awdurdod Gweinyddi, ar ei ddisgresiwn absoliwt, dal unrhyw grant marwolaeth sy'n daladwy (gan gynnwys CGY, SCCGY a sicrwydd bywyd mewn perthynas ag CGY) i, neu er budd enwebwr yr aelod, cynrychiolydd personol neu unrhyw berson sy'n ymddangos i'r awdurdod i fod yn berthynas neu ddibynnydd i'r aelod. Mae hyn hefyd yn berthnasol i aelodau sy'n gynghorwyr. | Bydd grant marwolaeth yn cael ei dalu i'r unigolyn/unigolion sydd wedi cael eu henwebu gan aelod y cynllun neu, os na dderbynnir unrhyw enwebiad neu Ewyllys, mae gan yr unigolyn/unigolion hawl yn unol â'r Ewyllys honno., yn destun derbyn gwybodaeth briodol i dystiolaethu dim amheuaeth yn y dull hwn. Os oes unrhyw amheuaeth am briodoldeb y derbynnydd arfaethedig, caiff y mater ei atgyfeirio i'r Panel ar gyfer penderfyniad terfynol, yn dilyn ystyriaeth o weithdrefn rheoli buddiannau marwolaeth mewnol y Gronfa. Bydd taliad yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gan unrhyw ddau aelod o'r Panel (gan nodi bod rhaid i un ai Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd neu'r Rheolwr Gweinyddu Pensiynau fod ynghlwm). Mae'r Panel yn cynnwys y swyddogion canlynol:<br>• Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd<br>• Rheolwr Gweinyddu Pensiynau<br>• Rheolwr Cyllid Corfforaethol neu'r Rheolwr Corfforaethol - Pobl a Datblygiad Sefydliadol. |
| 34 | **R13 – Sch 1**<br>**TP14 – 17(9)(b)**<br>**B25** | Mae'n rhaid i'r Awdurdod Gweinyddu benderfynu ar y dystiolaeth angenrheidiol er mwyn pennu dibyniaeth y sawl sy'n cyd-fyw ar gynllun aelod neu gyd-ddibyniaeth ariannol rhwng y sawl sy'n cyd-fyw ac aelod y cynllun. | Bydd y Rheolwr Gweinyddu Pensiynau yn penderfynu ar y dystiolaeth angenrheidiol er mwyn pennu dibyniaeth neu gyd-ddibyniaeth ariannol, a bydd penderfyniad terfynol unrhyw achos yn cael ei wneud gan y Rheolwr Gweinyddu Pensiynau yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd. |

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o'r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| **35** | **TP14 – 3(6), 4(6)(c), 8(4), 10(2)(a), 17(2)(b)**<br>**B10(2)** | Pan mae aelodau sy'n gymwys i B10 (defnydd cyfartaledd o gyflog 3 blynedd er pwrpas taliad terfynol) yn marw cyn gwneud etholiad, gall yr Awdurdod Gweinyddu benderfynu gwneud yr etholiad ar ran yr aelod sydd wedi marw. | Bydd y disgresiwn hwn yn cael ei ddefnyddio'n awtomatig pe byddai'n arwain at dalu buddion uwch. |
| **36** | **TP14 – 3(6), 4(6)(c), 8(4), 10(2)(a), 17(2)(b)**<br>**T08 - Sch 1**<br>**R97 - 23(9)** | Gwneud etholiad ar ran aelod ymadawedig gyda thystysgrif diogelu buddion pensiynau fel y gellir cyfrifo eu buddion gan ddefnyddio'r ffigwr tâl gorau, ai peidio. | Bydd y disgresiwn hwn yn cael ei ddefnyddio'n awtomatig pe byddai'n arwain at dalu buddion uwch. |
| **37** | **R97 - 22(7)** | Dewis cyfnod tâl terfynol arall ar gyfer aelod nad yw'n gynghorydd (yn gymwys i ymadawyr rhwng 31 Mawrth 1988 a 1 Ebrill 2008). | Bydd y disgresiwn hwn yn cael ei ddefnyddio'n awtomatig pe byddai'n arwain at dalu buddion uwch. |

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o'r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| 38 | R13 – Sch 1 "Plentyn Cymwys"<br>TP17(9) | I ymdrin â phlentyn (gan gynnwys plentyn aelod sy'n gynghorydd) fel bod mewn addysg barhaus neu hyfforddiant galwedigaethol, er eu bod wedi cael seibiant fel bod pensiwn y plentyn hwnnw'n ailgychwyn ar ôl seibiant, ai peidio. | Rhoddwyd pwerau dirprwyedig i bennu a ddylid trin plentyn yn y modd rydym wedi bod yn gwneud ai peidio i banel o swyddogion. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gan ddau aelod o'r Panel (gan nodi bod rhaid i un ai Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd neu'r Rheolwr Gweinyddu Pensiynau fod ynghlwm). Mae'r Panel yn cynnwys y swyddogion canlynol:<br>• Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd<br>• Rheolwr Gweinyddu Pensiynau<br>• Rheolwr Cyllid Corfforaethol neu'r Rheolwr Corfforaethol - Pobl a Datblygiad Sefydliadol. |
| 39 | R97 - 47(1)<br>R95 – G11(1) | Sut i rannu pensiwn plant ymysg plant cymwys (plant aelodau sy'n gynghorwyr a phlant ymadawyr rhwng 31 Mawrth 1998 ac 1 Ebrill 2008). | Yn gyffredinol, pan mae un neu ragor o blant cymwys, bydd y Gronfa'n rhannu pensiwn plant yn gyfartal rhwng y plant cymwys, gydag awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Rheolwr Gweinyddu Pensiynau i bennu beth sy'n briodol. |
| 40 | B27(5)<br>R97 – 47(2)<br>R95 – G11(2) | Talu pensiwn y plentyn yn llawn neu'n rhannol i berson arall er budd y plentyn (gan gynnwys plant i aelodau sy'n gynghorwyr). Mae hyn yn gymwys i ymadawyr cyn 1 Ebrill 2014 yn unig. | Yn gyffredinol, pan mae plentyn dan 17 mlwydd oed, byddwn yn talu'n uniongyrchol i gyfrif banc yn enw'r plentyn. Bydd rhaid cael cymeradwyaeth y Rheolwr Gweinyddu pensiynau ar y dull gweithredu hwn. Mae gweithdrefn rheoli buddiannau marwolaeth mewnol y Gronfa yn cynnwys mwy o wybodaeth ar y camau ymarferol sydd angen eu cymryd, gan gynnwys taliadau i gronfa ymddiriedolaeth/ISA iau plentyn, a all gael ei ystyried. |

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o’r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| **41** | **R95 - F7** | I atal pensiwn priod yn ystod ail briodas neu gyd-fyw, ai peidio. | Ni fyddwn yn atal pensiwn priod a byddant yn cael eu talu drwy gydol eu bywyd. |
| **Trosglwyddo neu Gysylltu Buddion** | | | |
| **42** | **R13 – 98(1)(b)** | I gytuno i dalu un trosglwyddiad ai peidio. | Yn unol â dirprwyaeth swyddogaethau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, caiff hyn ei bennu gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd ac un ai’r Rheolwr Cyllid Corfforaethol neu’r Rheolwr Corfforaethol - Pobl a Datblygiad Sefydliadol, ar ôl cael cyngor priodol gan Actiwari’r Gronfa. Mae eithriadau’n cynnwys: pan mae anghydfod dros y swm i’w drosglwyddo neu’n ymwneud â throsglwyddiad sylweddol o asedau yn ymwneud ag un cyflogwr neu’r Gronfa yn ei chyfanrwydd. |
| **43** | **R13 - 100(6)** | Gall yr Awdurdod Gweinyddu (gyda chytundeb y cyflogwr) ymestyn y terfyn amser 12 mis fel bod aelod o'r cynllun yn gallu ethol i drosglwyddo buddion o gynllun pensiwn nad yw’n un gyda’r llywodraeth leol neu un personol. | Rydym yn disgwyl bod aelodau’r cynllun yn gwneud cais i drosglwyddo o fewn 12 mis, a byddwn ond yn ymestyn y terfyn amser 12 mis mewn amgylchiadau eithriadol pan gall yr aelod cynllun ddangos bod y rheswm am y cais hwn tu hwnt i'w reolaeth. Bydd y Rheolwr Gweinyddu Pensiynau yn pennu unrhyw geisiadau mewn ymgynghoriad gyda’r cyflogwr. |

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o'r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| **44** | **R13 - 100(7)** | Caniatáu trosglwyddiadau hawliau pensiwn i'r Gronfa ai peidio. | Byddwn yn derbyn holl werth trosglwyddiadau (os yw'r cais wedi cael ei dderbyn o fewn 12 mis o ymuno â'r Gronfa) oni bai am unrhyw achosion lle mae'r Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) o'r cynllun anfon yn llai na £100. |
| **45** | **TP14 – 15(1)(d) ac A28(2)** | I godi ffi ar aelod o'r cynllun ai peidio, am ddarparu amcangyfrif o'r pensiwn ychwanegol a fyddai'n cael ei roi yn y gronfa yn gyfnewid am drosglwyddiad nawdd mewnol CGY/SCCGY (yn gymwys gyda chytundeb sy'n weithredol o 1 Ebrill 2014 ymlaen yn unig). | Ni fyddwn yn codi ffi am ddarparu'r amcangyfrifon hyn. |
| **46** | **TP14 - 10(9)** | Pan mae gan aelod a ohiriwyd sawl swydd gydamserol, efallai gall yr aelod ddewis pa swydd y bydd y buddion gohiriedig yn cyfuno gyda nhw. Gall yr Awdurdod Gweinyddu benderfynu hyn ar ran yr aelod os nad yw'r aelod yn ethol o fewn 12 mis o ddyddiad y daeth yr aelodaeth weithredol yn y gyflogaeth gydamserol i ben. | Bydd y Rheolwr Gweinyddu Pensiynau yn penderfynu ar hyn yn seiliedig ar beth sy'n ymddangos fel y dull gweithredu mwyaf buddiol ar 12 mis ar ôl i'r person fod yn aelod gohiriedig ar gyfer y gyflogaeth honno. |

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o'r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| **47** | **R97 - 118** | A fydd y Gronfa'n cadw'r Premiwm Cyfwerth â Chyfraniadau (CEP) pan mae aelod o'r cynllun yn trosglwyddo i gynllun cynllun pensiwn dan gontract (ar gyfer aelodau sy'n gynghorwyr ac ymadawyr cyn 1 Ebrill 2008) | Bydd swm y CEP yn cael ei gadw gan y Gronfa ac yn cael ei ddefnyddio tuag at ddarparu gweddill y buddion sy'n ddyledus i aelod o'r cynllun. |
| **Disgresiynau Amrywiol Eraill** | | | |
| **48** | **R97 – 106A(5)** | Dyddiad cyfrifo'r buddion fel y dangosir ar Ddatganiadau Buddion Blynyddol ar gyfer aelodau gohiriedig. | Bydd pob datganiad buddion blynyddol yn cael ei gyfrifo ar ddyddiad dod i rym y Gorchymyn Cynyddu Pensiynau bob blwyddyn. |
| **49** | **TP14 - 3(13)**<br>**A70(1) & A71(4(c)**<br>**T08 – 12**<br>**R97 – 109 & 110(4)(b)** | Gostyngiad ym mhensiwn unigolyn wrth eu hailgyflogi (yn gymwys i ymddeoledigion cyn 1 Ebrill 2014 yn unig, gan gynnwys aelodau sy'n gynghorwyr). | Nid yw buddiannau ymddeol yn cael ei lleihau. Fodd bynnag, dylid nodi bod taliadau blynyddol Blynyddoedd Ychwanegol Ad-daliadol yn parhau i fod yn amodol ar leihad ar ailgyflogaeth fel sy'n ofynnol dan ddeddfwriaeth. |

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o'r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| **50** | **R13 – 22(3)(c)** | Gellir cadw'r cyfrif ar ffurf sy'n cael ei ystyried yn briodol. | Y Rheolwr Gweinyddu Pensiynau fydd yn pennu ar y ffurf y cedwir y cyfrif pensiynau. |
| **51** | **R13 - 83**<br>**A52A** | Gall Awdurdod Gweinyddu bennu sut, ac i bwy y bydd buddion yn cael eu talu os nad yw'r derbynnydd yn gallu rheoli eu materion oherwydd anhwylder meddyliol neu fel arall. | Rhoddwyd pwerau dirprwyedig i bennu sut, ac i bwy fydd y buddion yn cael eu talu i Banel o swyddogion. Cyn i'r achos gael ei atgyfeirio at y Panel, bydd ystyriaeth yn cael ei roi i weithdrefnau mewnol y Gronfa. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gan ddau aelod o'r Panel (gan nodi bod rhaid i un ai Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd neu'r Rheolwr Gweinyddu Pensiynau fod ynghlwm). Mae'r Panel yn cynnwys y swyddogion canlynol:<br>• Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd<br>• Rheolwr Gweinyddu Pensiynau<br>• Rheolwr Cyllid Corfforaethol neu'r Rheolwr Corfforaethol - Pobl a Datblygiad Sefydliadol. |
| **52** | **R13 – 16(1)** | I wrthod cais i dalu CPY/SCCPY drwy gyfraniadau rheolaidd dros gyfnod o amser pan fyddai'n anymarferol i ganiatáu'r fath gais, oherwydd prynu'r pensiwn mewn taliadau bach iawn. | Ni fyddwn yn gwrthod cais. Fodd bynnag, pan mae'r swm i'w dalu'n llai na chyfanswm o £50, ni fyddwn yn caniatáu cyfraniadau rheolaidd a dalwyd dros gyfnod o amser a byddwn o ganlyniad yn gofyn ei fod yn cael ei dalu fel cyfandaliad. |

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o'r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| **53** | **R13 – 16(10)** | I ofyn am asesiad meddygol boddhaol cyn cytuno i gais i dalu CPY neu SCCPY ai peidio, ac i wrthod cais os nad yw'r awdurdod gweinyddu'n fodlon bod aelod yn rhesymol iach, ai peidio. | Bydd gofyn i unrhyw aelod o gynllun sy'n dymuno prynu pensiwn ychwanegol drwy CPY/SCCPY, drwy daliadau ysbeidiol parhaus, ymgymryd ag archwiliad meddygol ac yn rhesymol iach o ganlyniad (gan ddefnyddio'u meddyg eu hunain a thalu am y gwasanaeth eu hunain) cyn cael cychwyn talu cyfraniadau ychwanegol. Ni fydd angen archwiliad meddygol pan mae'r aelod sy'n talu yn colli pensiwn ar ôl absenoldeb. |
| **54** | **R13 – 32(7)** | Mae'n rhaid i aelod o'r cynllun sy'n dymuno derbyn buddion ar gyfnod arall nad yw'n oedran pensiwn, neu ar ymddeoliad hyblyg, ethol i wneud hynny o fewn terfynau amser penodol. Gall yr Awdurdod Gweinyddu ymestyn y terfynau amser hyn. | Rydym yn disgwyl bod etholiadau'n cael eu gwneud o fewn y terfynau amser hyn sydd o fewn y rheoliadau. Fodd bynnag, gall y Rheolwr Gweinyddu Pensiynau ymestyn y terfynau amser hyn mewn amgylchiadau eithriadol. |
| **55** | **TP14 – 15(1)(c)**<br>**T08 - Sch 1**<br>**a R97 - 83(5)** | I ymestyn y cyfnod ar gyfer aelodau o'r cynllun sy'n ethol i wneud y mwyaf o gyfraniadau sy'n weddill i gontract blynyddoedd ychwanegol mewn achosion o ddiswyddiad ai peidio. | Fel arfer rydym yn caniatáu terfyn amser o 3 mis, fodd bynnag gall y Rheolwr Gweinyddu Pensiynau ymestyn hyn mewn amgylchiadau eithriadol. |

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o'r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| **56** | **R13 – 34(1)**<br>**B39**<br>**T08 - 14(3)**<br>**R97 – 49 a 156** | Gall yr Awdurdod Gweinyddu symud pensiynau bach i gyfandaliad pan maent yn is na'r cyfyngiadau cenedlaethol ac yn amodol ar aelod y cynllun yn bodloni meini prawf penodol. | Pan rydych yn cael caniatâd i wneud hynny, rydym yn anelu at dalu cyfandaliad yn lle pensiwn ar gyfer pob pensiwn sy'n llai na £100 y flwyddyn, yn amodol ar allu glynu ar y prosesau gweinyddol cysylltiedig â'r gofynion cyfreithiol a chydnabod nad yw hyn yn bosib pan mae buddion pensiynau eraill yn bodoli.<br>Pan mae pensiwn yn £100 neu fwy bob blwyddyn, ond yn is na'r cyfyngiadau y diffinnir yn genedlaethol, byddwn yn talu cyfandaliad yn lle pensiwn pan mae aelodau'n ethol derbyn cyfandaliad (eto, yn amodol ar allu glynu ar brosesau gweinyddol a gofynion cyfreithiol). |
| **57** | **R13 – 49(1)(c)**<br>**B42(1)(c)** | Penderfynu, yn absenoldeb etholiad gan aelod o'r cynllun, gyda'r budd yn cael ei dalu lle na fyddai gan aelod hawl i fydd dan ddau reoliad neu ragor mewn perthynas â'r un cyfnod o aelodaeth i'r Cynllun. | Caiff hyn ei bennu ar sail achosion unigol gan y Rheolwr Gweinyddu Pensiynau. |
| **58** | **R97 - 147** | I ganiatáu Credyd Pensiwn i aros yn y Gronfa neu ofyn am drosglwyddiad ai peidio. | Bydd buddiannau Credyd Pensiwn yn aros yn y Gronfa, oni bai bod yr aelod Credyd Pensiwn yn dewis ei drosglwyddo allan. |

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o'r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| **59** | **R97 - 50 a 157** | I gymudo buddion oherwydd salwch eithriadol ai peidio (yn gymwys i aelodau sy'n gynghorwyr ac ymadawyr cyn 1 Ebrill 2008 yn unig). | Dan yr amgylchiadau hyn, byddwn yn talu cyfandaliad yn lle pensiwn ac eithrio bod yr aelod yn ethol iddo beidio cael ei dalu. |
| **60** | **R97 - 91(6)** | Gall yr Awdurdod Gweinyddu bennu amseriad y taliadau cynyddu pensiwn gan gyflogwyr i'r Gronfa (yn gymwys i ymadawyr cyn 1 Ebrill 2008 yn unig). | Mae'n rhaid gwneud y fath daliadau'n fisol. |
| **61** | **R13 – 85(3)**<br>**A45(3)** | Gall yr Awdurdod Gweinyddu adennill unrhyw gyfraniadau neu swm sy'n ddyledus gan gyflogai fel contract dyled syml mewn unrhyw lys awdurdodaeth cymwys neu drwy ei dynnu o unrhyw daliad drwy fudd-daliadau i neu ar gyfer yr unigolyn. | Bydd hyn yn cael ei benderfynu yn unol â gofynion Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth y Gronfa a Pholisi'r Gronfa ar Ordaliadau a Thandaliadau Buddion Cynllun Pensiwn. Os nad yw'r amgylchiadau wedi'u cynnwys gan y rhain neu Gyfansoddiad Cyngor Sir y Fflint, ac eithrio, ym marn Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd a'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol ar y cyd, bod amgylchiadau achos penodol gymaint â na fyddai'n briodol adennill unrhyw gyfraniadau neu swm dyledus fel contract dyled syml, bydd adennill yn cael ei ddilyn fel contract dyled syml mewn unrhyw lys awdurdodaeth cymwys. |

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o'r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| **Disgresiynau yn ymwneud â chyflogwyr nad ydynt yn bodoli mwyach** | | | |
| **62** | **R13 – 38(3) a 38(6)**<br>**B31(4) a 31(7)** | Mae'n rhaid i gyn cyflogwr benderfynu a yw aelod gohiriedig yn bodloni'r meini prawf ar gyfer salwch parhaol. Mae hyn hefyd yn gymwys i aelod o'r cynllun a oedd yn derbyn buddion salwch Haen 3. Gall yr Awdurdod Gweinyddu benderfynu ar hyn os nad yw'r cyflogwr yn bodoli mwyach. | Byddwn yn dilyn polisi'r cyflogwr yn syth cyn iddo ddod i ben i fod yn gyflogwr Cynllun pan fo'n bosib. Os nad yw hyn yn hysbys byddwn yn dilyn polisi Cyngor Sir y Fflint. |
| **63** | **TP14 – 3(5A)(vi),**<br>**TP97 – 4**<br>**L106(1) a D11 (2)(c)** | Gall cyn cyflogwr roi caniatâd ar gyfer taliad cynnar buddion gohiriedig ar neu ar ôl 50 mlwydd oed ar sail dosturiol. Mae hyn ond yn gymwys i aelodau sydd wedi gadael cyn 1 Ebrill 1998. Gall yr Awdurdod Gweinyddu benderfynu ar hyn os nad yw'r cyflogwr yn bodoli mwyach. | Byddwn yn dilyn polisi'r cyflogwr yn syth cyn iddo ddod i ben i fod yn gyflogwr Cynllun pan fo'n bosib. Os nad yw hyn yn hysbys byddwn yn dilyn polisi Cyngor Sir y Fflint. Dylid nodi bod talu buddion cyn 55 mlwydd oed yn achosi ffioedd treth ychwanegol ar gyfer yr aelod a'r Gronfa. |

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o'r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| **64** | **TP14 - Sch 2, Para 1(2) a 2(2)** | Gall y cyflogwr ddewis i ganiatáu 85 diogeliad i fod yn gymwys i fuddion aelod o'r cynllun sy'n cymryd ymddeoliad gwirfoddol o statws gweithredol neu mewn perthynas ag aelod sy'n bensiynwr gyda buddion gohiriedig (ac nid ar sail ymddeoliad hyblyg). Wrth wneud hyn, efallai na fyddai gostyngiad ymddeoliad cynnar yn gymwys. Gall y ddarpariaeth fod yn gymwys i aelodau'r cynllun sydd wedi cyrraedd 55 mlwydd oed yn unig, sydd heb gyrraedd 60 mlwydd oed. Gall yr Awdurdod Gweinyddu benderfynu ar hyn os nad yw'r cyflogwr yn bodoli mwyach. | Byddwn yn dilyn polisi'r cyflogwr yn syth cyn iddo ddod i ben i fod yn gyflogwr Cynllun pan fo'n bosib. Os nad yw hyn yn hysbys byddwn yn dilyn polisi Cyngor Sir y Fflint. |

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o'r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| **65** | **TP14 - 3(1), Sch 2, Para 2(1) a 2(2)**<br>**B30(5) a 30A(5)** | Dan rhai amgylchiadau (gan gynnwys ar sail dosturiol) ac mewn perthynas â rhai cyfnodau aelodaeth , gall cyflogwr ddewis o hepgor unrhyw ostyngiadau i fuddion ai peidio, a fyddai'n gymwys fel arall. Gall hyn fod yn gymwys i gyn aelodau Salwch Haen 3 (h.y. aelod sy'n bensiynwr gyda buddion gohiriedig). Gall yr Awdurdod Gweinyddu benderfynu ar hyn os nad yw'r cyflogwr yn bodoli mwyach. | Byddwn yn dilyn polisi'r cyflogwr yn syth cyn iddo ddod i ben i fod yn gyflogwr Cynllun pan fo'n bosib. Os nad, byddwn yn dilyn polisi Cyngor Sir y Fflint. |

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o’r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| **66** | **R13 – 30(8)** | Gall gyflogwr ddewis i hepgor, yn llawn neu’n rhannol, unrhyw ostyngiad a allai fod yn gymwys fel arall i fuddion aelod y cynllun ar ymddeoliad hyblyg neu ymddeoliad gwirfoddol cyn oedran pensiwn arferol pan mae gan yr aelod aelodaeth ar ôl 1 Ebrill, 2014 yn unig. Gall yr Awdurdod Gweinyddu benderfynu ar hyn os nad yw'r cyflogwr yn bodoli mwyach. | Byddwn yn dilyn polisi’r cyflogwr yn syth cyn iddo ddod i ben i fod yn gyflogwr Cynllun pan fo'n bosib. Os nad yw hyn yn hysbys byddwn yn dilyn polisi Cyngor Sir y Fflint. |
| **67** | **R13 – 30(8)** | Gall gyflogwr ddewis i hepgor, yn llawn neu’n rhannol, unrhyw ostyngiad ymddeoliad cynnar a allai fod yn gymwys fel arall i fuddion aelod y cynllun ar ymddeoliad gwirfoddol. Mae’r darpariaethau hyn ond yn gymwys i aelodau’r cynllun sydd wedi cyrraedd 55 oed. Gall yr Awdurdod Gweinyddu benderfynu ar hyn os nad yw'r cyflogwr yn bodoli mwyach. | Byddwn yn dilyn polisi’r cyflogwr yn syth cyn iddo ddod i ben i fod yn gyflogwr Cynllun pan fo'n bosib. Os nad yw hyn yn hysbys byddwn yn dilyn polisi Cyngor Sir y Fflint. |

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o'r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| **68** | **TP14-12(6)** | Gall yr Awdurdod Gweinyddu benderfynu caniatáu tystysgrif, a gynhyrchwyd gan Ymarferydd Meddygol Cofrestredig Annibynnol dan gynllun 2008, er pwrpas gwneud penderfyniadau am salwch dan Gynllun 2014, pan nad oes gan yr aelod awdurdod cyflogi cyfredol ac mae cyn awdurdod cyflogi'r aelod wedi gorffen bod yn gyflogwr y Cynllun. | Caiff y dystysgrif ei chaniatáu pan, dan amgylchiadau achos penodol, nid yw'r dystysgrif yn cydymffurfio gyda gofynion Cynllun 2014. |
| **Disgresiynau yn ymwneud â Chynghorwyr** | | | |
| **69** | **R97 - 12(5)** | Gall yr Awdurdod Gweinyddu bennu amlder taliadau cyfraniadau'r cynghorwyr. | Rydym wedi pennu y dylai cyfraniadau cynghorwyr gael ei dynnu o'r tâl ymhob cyfnod tâl. |

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o'r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| **70** | **R97 – 17(4), 17(7), 17(8), 89(4) a Sch 1** | Gall yr Awdurdod Gweinyddu ymestyn y cyfnod 12 mis arferol yn dilyn ymadawiad o'r lluoedd wrth gefn perthnasol ar gyfer cyflwyno "nodyn canslo" gan aelod sy'n gynghorwyr yn gwneud cais i beidio trin y gwasanaeth fel gwasanaeth lluoedd wrth gefn perthnasol. | Rhoddir awdurdod dirprwyedig i'r Rheolwr Gweinyddu Pensiynau i bennu beth sy'n briodol ar sail achosion unigol. |
| **71** | **R97 – 60(5)** | Gall yr Awdurdod Gweinyddu benderfynu os yw ei dderbyniad o etholiad CGY yn amodol ar leiafswm o ran taliad, ai peidio (cynghorwyr yn unig). | Rydym wedi penderfynu na fydd lleiafswm o ran taliad yn gymwys yn y fath achosion. |
| **72** | **R97 – 81(1)** | Gall yr Awdurdod Gweinyddu bennu amlder taliadau cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa (o ran aelodau sy'n gynghorwyr). | Rydym wedi penderfynu y bydd taliad y cyflogwyr yn fisol ac yn cael ei gynnwys yn nhrefniadau'r Cyngor yn unol â disgresiwn 27. |

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o'r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| **73** | **R97 – 81(5)** | Gall yr Awdurdod Gweinyddu bennu amlder a dull y wybodaeth i gyd-fynd â thaliadau cyfraniadau i'r Gronfa (o ran aelodau sy'n gynghorwyr). | Rydym wedi penderfynu y bydd yn cael ei gynnwys yn nhrefniadau'r Cyngor yn unol â disgresiwn 28. |
| **74** | **R97 – 82(1)** | Gall yr Awdurdod Gweinyddu penderfynu i godi llog ar daliadau cyfrannu i'r Gronfa gan gyflogwyr sy'n ddyledus o 1 mis neu fwy (mewn perthynas ag aelodau sy'n gynghorwyr). | Yn ddiofyn bydd llog yn cael ei godi mewn perthynas â thaliadau hwyr a dderbynnir gan awdurdodau cyflogi, lle mae taliad yn hwyr (gyda'r dyddiad hwyr wedi'i nodi yn y rheoliadau perthnasol). Bydd llog yn cael ei gyfrifo yn unol â'r rheoliadau perthnasol. Fodd bynnag, gall Gyfrifydd y Gronfa Bensiynau ddewis hepgor y taliad, yn dilyn trafodaeth gyda'r Rheolwr Gweinyddu Pensiynau a Phennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd. Bydd hepgor y swm fel arfer ond yn cael ei ystyried os ystyrir bod y llog yn de minimis.<br><br>Sylwch, nid yw'r disgresiwn hwn yn gymwys i daliadau sy'n daladwy gan Gyngor Sir y Fflint fel awdurdod cyflogi. Mae Rheoliad 82(1A) yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i log gael ei dalu dan yr amgylchiadau hyn. |

| Cyf | Cyfeirnod Rheoliad (gweler yr allwedd isod) | Disgrifiad o’r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| **75** | **R97 – 105(1)** | Gall yr Awdurdod Gweinyddu benderfynu apelio i’r Ysgrifennydd Gwladol yn erbyn penderfyniad cyflogwr, neu ddiffyg penderfyniad (cynghorwyr ac ymadawyr cyn 1 Ebrill 2008). | Byddwn yn apelio i’r Ysgrifennydd Gwladol pan gredwn fod cyflogwr wedi gwneud penderfyniad neu ymrwymo i weithred (neu wedi methu gweithredu) sy’n yn groes i'r gyfraith a’r deunydd, pan nad ydym wedi gallu darbwyllo'r cyflogwr i newid ei weithredoedd (neu ddiffyg gweithredoedd).<br><br>Caiff y fath faterion eu pennu gan Bwyllgor y Gronfa Bensiynau. |

## Rheoliadau Disgresiynau dan Lywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal yn ôl Disgresiwn) (Cymru a Lloegr) 2000 (fel y’i diwygiwyd)

| Cyf | Cyfeirnod y Rheoliad | Disgrifiad o’r Disgresiwn | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|---|
| **76** | **31(2)** | Pan mae cyflogwr yn terfynu cyflogaeth yn gynnar, gall yr Awdurdod Gweinyddu gytuno i dalu iawndal ar ran y cyflogwr o’r Gronfa ac yn ailgodi’r taliadau ar y cyflogwr. | Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn talu iawndal ar ran y cyflogwr o’r Gronfa ac yn ailgodi’r taliadau ar y cyflogwr. |

## Polisïau Eraill yn Ymwneud â Gweinyddu

| Cyf | Disgrifiad o'r Maes Polisi | Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd |
|---|---|---|
| **77** | Pan mae Gorchymyn Llys yn gofyn am ostyngiad o daliad pensiwn aelod, gall y gost gweinyddu i'r Gronfa Bensiynau ar gyfer y gostyngiad hwnnw, a thaliad y swm a dynnwyd gan y derbynnydd a enwyd yn y gorchymyn ei adennill. Bob tro caiff swm ei dynnu, gellir tynnu punt o'r swm sy'n ddyledus i'r aelod i dalu am gostau gweinyddu. | Mewn achosion pan mae Gorchymyn Llys yn gofyn bod swm yn cael ei dynni o bensiwn aelod, ni fyddwn yn tynnu o'r swm sy'n ddyledus i aelod i dalu costau gweinyddol. |
| **78** | Gall yr Awdurdod Gweinyddu ganiatáu aelod o'r cynllun i dalu ffi treth sy'n ddyledus oherwydd mynd tu hwnt i'r Lwfans Bywyd neu Flynyddol mewn amgylchiadau penodol fel y darperir gan y Ddeddf Cyllid 2004 (fel y'i diwygiwyd). Gelwir hyn yn Taliadau Cynllun Gwirfoddol. | Byddwn yn caniatáu Taliadau Cynllun Gwirfoddol mewn rhai sefyllfaoedd. Gellir dod o hyd i gopi o'r Polisi Cynllun Talu Gwirfoddol ar wefan y Gronfa Bensiynau. |
| **79** | Polisi Gordaliadau a Thandaliadau y Cynllun Pensiwn - mae'r polisi hwn yn amlinellu sut yr ymdrinnir â gordaliadau a thandaliadau o fuddion pensiwn. | Byddwn yn dilyn y dull a amlinellir yn ein Polisi wrth ddelio a gordaliadau neu dandaliadau buddion neu gyfraniadau. |
| **80** | Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth - mae'r strategaeth hon yn amlinellu:<br>• ein hymrwymiad i atal a chanfod twyll<br>• ein dim goddefgarwch tuag at weithredoedd o dwyll a'n<br>• hymateb i dwyll. | Byddwn yn dilyn y dull a amlinellir yn ein Strategaeth, sydd ar wefan y Gronfa Bensiynau, wrth ddelio â thwyll neu amheuaeth o dwyll neu lygredigaeth. |

Efallai bod meysydd eraill o bolisi neu strategaeth mewn perthynas â rheoli'r Gronfa. Gellir dod o hyd i'r mwyafrif ohonynt ar wefan Cronfa Bensiynau Clwyd **yma**.

**cronfabensiynauclwyd.org.uk**

**Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF**

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.